

Porth Penrhyn

Cludwyd llechi o chwarel y Penrhyn mewn llongau i bedwar ban byd, gan ddarparu llechi toi ar gyfer y nifer helaeth o dai oedd yn cael eu hadeiladu yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mor gynnar â 1790, roedd mwy na dwsin o longau'n gadael y porthladd bob wythnos, a'r rhan fwyaf ohonynt yn mynd am Lerpwl. Yn wreiddiol, cariwyd y llechi o'r chwarel gan geffylau, ac yna'n ddiweddarach defnyddiwyd y troliau.



Captio here for this photo

Agorwyd rheilffordd y Penrhyn yn 1801 gan gysylltu'r chwarel i'r porthladd, pellter o 6 milltir. Gyrrwyd y cerbydau yn ôl a mlaen gan rym ceffylau. Defnyddiwyd incleiniau i ymdopi â'r graddiant serth, cwmp o oddeutu 500 troedfedd o un pen i'r llall. Rhwng 1876 a 1962 cludwyd y llechi i Borth Penrhyn gan drenau stêm.

Ffatri llechi ysgrifennu ym Mhorth Penrhyn

Adeiladwyd nifer o adeiladau ym Mhorth Penrhyn gan Ystâd Penrhyn. Maent yn cynnwys y fila clasurol, Lime Grove, y dywed mai Samuel Wyatt a'i adeiladodd i asiant yr ystâd, a'r tŷ bach cymunedol crwn. Un datblygiad arloesol a gynyddodd y galw am llechi oedd eu defnydd yn yr ysgolion fel bwrdd du i blant allu ysgrifennu arnynt gyda sialc. Roedd gan Ystâd y Penrhyn fwy neu lai fonopoli ar gynhyrchu llechi ysgrifennu. Roedd y ffatri llechi ysgrifennu wedi'i lleoli ar ymyl y cei.



Sgwneri cludo llechi pan oedd Porth Penrhyn yn ei anterth, tua 1913

TAITH Y LLECHEN

Dilynwch Daith y Llechen ar hyd llwybr Lôn Las Ogwen lle ceir amryw o baneli gwybodaeth sy'n adrodd stori unigryw llechi Ogwen, Chwarel y Penrhyn a'r bobl fu'n rhan o'r diwydiant llechi.